

Ffotograffydd Ffasiwn/Hysbysebu

Cyflwyniad

Mae ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu'n tynnu lluniau o ddillad a chynnyrch eraill y mae pobl yn debygol o'u prynu.

Adwaenir hefyd fel

- Ffotograffydd Hysbysebion
- Ffotograffydd, Ffasiwn/Hysbysebion

Gweithgareddau Gwaith

Mae ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu'n tynnu lluniau o ddillad ac eitemau ffasiwn a chynnyrch eraill y mae pobl yn debygol o'u prynu. Defnyddir y lluniau ar gyfer hysbysebion ar y rhyngwyd, mewn cylchgronau, papurau newydd, catalogau archebu drwy'r post, llyfrynau teithio a phosteri.

Fel rheol, mae ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu'n cael briff gan gyfarwyddwr celf, golygydd ffasiwn neu gleient sy'n nodi manylion y ddelwedd maen nhw am ei chyfleu. Wedyn, byddan nhw'n trafod cefndir, naws a maint terfynol y llun.

Mae llawer o waith hysbysebu'n ymwneud â chymryd lluniau bywyd llonydd o wrthrychau mewn stiwdio. Mae hyn yn gofyn am lawer o sylw i fanylion wrth drefnu propiau a goleuo, a dim ond ychydig amser mewn gwirionedd yn tynnu'r lluniau. Mae llawer o ffotograffwyr hysbysebu'n arbenigo mewn un maes, fel bwyd neu geir.

Mae ffotograffwyr ffasiwn yn gwneud llawer o waith trefnu, naill ai'n dewis modelau neu'n trefnu lleoliadau a'r set. Maen nhw'n trefnu goleuadau'r stiwdio er mwyn sicrhau bod croen y model a gweadau ac amrywiol liwiau'r dillad yn edrych ar eu gorau.

Maen nhw'n cydweithio â phobl trin gwallt, steilwyr a cholurwyr sy'n canolbwyntio ar ddelwedd y model. Fel rheol, mae ffotograffwyr ffasiwn yn datblygu eu harddull personol sy'n addas ar gyfer amrywiol feysydd y farchnad a gwahanol grwpiau oedran.

Mae ffotograffwyr ffasiwn / hysbysebu'n gweithio dan lawer o bwysau; mae'n rhaid iddyn nhw gadw o fewn terfynau cyllideb ac o fewn terfynau amser. Efallai y bydd rhaid iddyn nhw deithio'n lleol, ar hyd a lled y wlad a hyd yn oed i wledydd tramor. Gall hyn olygu bod yn rhaid treulio amser oddi cartref.

Mae'n bosibl y bydd y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais ichi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel ffotograffydd ffasiwn/hysbysebu, bydd angen i chi gael:

- Gwybodaeth am dechnegau ffotograffiaeth.
- Y gallu i ddefnyddio amrywiaeth eang o gamerâu a lensys.
- Natur greadigol.
- Sgiliau cyfathrebu da.
- Y gallu i wneud eich model yn gartrefol a chyffyrddus o flaen y camera.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y dechnoleg ddiweddaraf.
- Y gallu i weithio o fewn terfynau amser.
- Gwybodaeth am feddalwedd delweddu cyfrifiadurol a thechnoleg ddigidol.

Mae'r diwydiant ffotograffiaeth ffasiwn yn hynod gystadleuol, felly rhaid i chi fod yn hyderus, yn benderfynol ac yn barod i weithio oriau hir.

Bydd angen i ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu hunangyflogedig neu lawrydd gael sgiliau busnes a marchnata.

Mae trwydded yrru'n ddefnyddiol.



Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog

Mae cyfraddau cyflog ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu yn amrywio yn ôl a ydyn nhw'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig .

Dyma'r cyfraddau cyflog yn fras.

Mae ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu yn ennill rhwng £16,000 a £19,000 y flwyddyn, sy'n codi i rhwng £24,500 a £32,000. Mae ffotograffwyr sy'n fwy profiadol yn gallu ennill cyflogau uwch.

Mae ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu yn aml yn cael eu talu yn ôl yr awr. Gall hyn amrywio o £6 i £14 yr awr.

Mae modd ennill bonws ar ben cyflog sylfaenol.

Mae llawer o enghreifftiau o waith di-dâl ymysg ffotograffwyr.

Oriau gwaith

Mae oriau gwaith yn debygol o fod yn anghyson. Mae cychwyn yn gynnar, gorffen yn hwyr a gweithio ar benwythnosau ac yn ystod gwyl y banc yn gyffredin.

Beth sy'n digwydd yn y maes gwaith hwn?

Mae cael swydd ym maes ffotograffiaeth yn gystadleuol dros ben, gan fod mwy o ymgeiswyr nag sydd o swyddi gwag.

Mae llawer yn cystadlu am waith llawrydd.

Ble gallwn i weithio?

Mae gwaith yn cael ei gomisiynu gan olygyddion cylchgronau ffasiwn, cwmnïau archebu o gatalog, ac asiantaethau hysbysebu ar ran eu cleientiaid.

Mae cyfleoedd gwaith ar gael i ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu mewn trefi a dinasoedd ledled y DU. Er hynny, mae'r cyfleoedd gorau o gwmpas Llundain, ac mewn dinasoedd mawr eraill.

Hunangyflogaeth

Mae ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu fel rheol yn weithwyr hunangyflogedig neu lawrydd.

Ble mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?

Mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu mewn cylchgronau ffotograffiaeth, hysbysebu a dylunio masnachol ac ar wefannau fel yr Association of Photographers (AOP).

Caiff swyddi eu hysbysebu hefyd ar yr holl brif fyrddau swyddi ac ar wefan Paru Swyddi a Chanolfan Byd Gwaith.

Dylech hefyd ddatblygu rhwydwaith o gysylltiadau perthnasol, gan nad yw'r holl swyddi ffotograffiaeth yn cael eu hysbysebu. Mae'n gallu bod yn syniad da gwneud ceisiadau swydd ar hap i ddarpar gyflogwyr.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad

Y ffordd orau i ddarpar ffotograffydd ddysgu am y diwydiant yw trwy ddod yn gynorthwydd ffotograffig llawn amser neu lawrydd, er bod cystadleuaeth frwd am y swyddi hyn.

Fel arall, gallwch ddechrau yn y diwydiant trwy wneud cwrs ffotograffiaeth. Mae cyrsiau llawn amser a rhan-amser ar gael sy'n arwain at radd sylfaen, HNC, HND neu radd mewn ffotograffiaeth.

Mae rhai yn cael lle ar gyrsiau gradd trwy wneud cwrs sylfaen .

Mae eraill yn dechrau yn yr yrfa trwy wneud Uwch Brentisiaeth mewn Delweddu Ffotograffig.

Gall y British Institute of Professional Photography (BIPP) – y corff cymwysterau swyddogol ar gyfer ffotograffiaeth broffesiynol – ddarparu gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi a sut i ddod yn aelod.

Hyfforddiant

Mae'r hyfforddiant yn cael ei wneud yn y gwaith.

Mae'r Association of Photographers (AOP) hefyd yn cynnig hyfforddiant a chyfleoedd i rwydweithio.

Mae City & Guilds hefyd yn cynnig cymwysterau mewn ffotograffiaeth.

Camu ymlaen yn eich swydd

Gall ffotograffwyr symud i weithio i sefydliadau mawr neu i weithio dramor.

Bydd llawer o ffotograffwyr yn mynd yn hunangyflogedig .

Cymwysterau

Does dim rhaid cael cymwysterau i gael gyrfa fel ffotograffydd. Er hynny, mae'n well gan rai cyflogwyr bod gennych chi gymwysterau.

I ddechrau cwrs Uwch Brentisiaeth, fel rheol bydd angen i chi gael 5 TGAU gradd C neu uwch, neu fod gennych chi Brentisiaeth Ganolradd .

Y gofynion mynediad arferol ar gyfer Cwrs sylfaen perthnasol yw:

- 1/2 lefel A. Bydd angen i chi gael lefel A mewn celf neu bwnc seiliedig ar gelf.
- TGAU gradd C neu uwch mewn 4/5 pwnc. Mae rhai cyrsiau'n gofyn i chi gael TGAU Saesneg.

Bydd yn dra defnyddiol i chi gael portffolio o'ch gwaith ffotograffig ar gyfer yr holl gyrsiau perthnasol.

I gael lle ar gwrs gradd perthnasol, y gofynion arferol yw:

- 2/3 lefel A. Bydd rhai cyrsiau'n gofyn am bynciau fel Celf a Ffotograffiaeth.
- 4/5 TGAU gradd C neu uwch.

Fel rheol bydd angen i chi gael Mathemateg a Saesneg.

Cymwysterau sy'n gyfwerth â lefel A yw:

- Diploma Cenedlaethol BTEC lefel 3 mewn Celf a Dylunio.
- Uwch Brentisiaeth.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (IBD).

Ar gyfer y Fagloriaeth, bydd llawer o gyrsiau'n gofyn i chi gael Celf ar lefel Uwch.

Mae llawer o gymwysterau eraill hefyd yn dderbyniol felly edrychwch drwy'r prosbectysau i gael rhagor o fanylion.

I gael lle ar gwrs HNC, HND neu radd sylfaen , fel rheol byddwch angen:

- 1/2 lefel A. Byddai lefel A mewn celf yn ddefnyddiol.
- 4/5 TGAU gradd C neu uwch. Efallai bydd angen TGAU mewn Mathemateg a Saesneg.

Mae cymwysterau cyfwerth â lefel A wedi'u nodi uchod.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gywerth ag 1 Lefel A.

Cyfleoedd i Oedolion

Terfynau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad osod terfynau oedran ar gyfer mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, oni bai y gall ddangos bod angen gwirioneddol am y terfynau hyn.

Sgiliau/profiad

Mae cael gwaith yn yr yrfa hon yn gystadleuol dros ben. Mae'r rhan fwyaf yn cychwyn fel cynorthwydd llawn amser neu lawrydd. Mae gwneud cysylltiadau perthnasol yn bwysig iawn, yn ogystal â chael portffolio o ansawdd uchel.

Cyrsiau

Mae modd astudio ffotograffiaeth yn llawn amser neu'n rhan-amser, neu ei wneud fel hobi. Mae'n ddefnyddiol diweddarau'ch sgiliau trwy gymryd cyrsiau byr mewn technegau a dulliau ffotograffig fel cyrsiau'r City & Guilds.

Os nad oes gennych y cymwysterau angenrheidiol er mwyn cael lle ar gwrs gradd neu HND o'ch dewis, efallai y byddai cwrs mynediad mewn coleg neu brifysgol (e.e. Mynediad i Gelfyddyd a Dylunio) yn datrys y sefyllfa. Fel rheol, nid oes angen cymwysterau ffurfiol, ond dylech wirio manylion y cyrsiau unigol.

Gall y cyrsiau hyn arwain at gael lle ar gwrs gradd/HND.

Fel rheol, bydd prifysgolion a cholegau addysg uwch (AU) yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd heb y cymwysterau arferol, yn enwedig rhai sydd â llawer o brofiad perthnasol. Dylech edrych ar bolisi mynediad y prifysgolion a'r colegau AU unigol.

Mae rhestr lawn o gymwysterau perthnasol ar gael ar wefan Skillset.

Dysgu o bell

Mae nifer fawr o ganolfannau'n cynnig cyrsiau perthnasol mewn ffotograffiaeth ar amrywiol lefelau, gan gynnwys y Brifysgol Agored, trwy ddysgu o bell .

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Apprenticeships**
National Apprenticeship Service (NAS)
Ffôn 0800 015 0400
E-bost nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk
Gwefan www.apprenticeships.org.uk
- **Skills Development Scotland - Modern Apprenticeships**
Ffôn 0800 9178000
E-bost info@skillsdevelopmentscotland.co.uk
Gwefan www.myworldofwork.co.uk/modernapprenticeships
- **City & Guilds**
Cyfeiriad 1 Giltspur Street, London EC1A 9DD
Ffôn 020 7294 2468
E-bost learnersupport@cityandguilds.com
Gwefan www.cityandguilds.com
- **Creative Skillset**
Skills for the creative industries
E-bost info@creativeskillset.org
Gwefan www.creativeskillset.org
- **Creative Choices**
Publisher: Creative & Cultural Skills

E-bost info@creative-choices.co.uk
Gwefan www.creative-choices.co.uk

- **Open University (OU)**
Ffôn 0845 3006090
Gwefan www.open.ac.uk
- **Creative & Cultural Skills**
Skills for craft, cultural heritage, design, literature, music, performing arts and visual arts
E-bost london@ccskills.org.uk
Gwefan ccskills.org.uk
- **London College of Fashion**
Cyfeiriad 20 John Princes' Street, London W1G 0BJ
Ffôn 020 7514 7400
E-bost enquiries@fashion.arts.ac.uk
Gwefan www.fashion.arts.ac.uk
- **Drapers: The Fashion Business**
Publisher: EMAP
Cyfeiriad Greater London House, Hampstead Road, London NW1 7EJ
Ffôn 020 3033 2600
Gwefan www.drapersonline.com
- **Association of Photographers (AOP)**
Cyfeiriad 21 Downham Road, London N1 5AA
Ffôn 020 7739 6669
E-bost info@aophoto.co.uk
Gwefan www.the-aop.org
- **Royal Photographic Society**
Cyfeiriad Fenton House, 122 Wells Road, Bath BA2 3AH
Ffôn 01225 325733
E-bost reception@rps.org
Gwefan www.rps.org
- **British Institute of Professional Photography (BIPP)**
Cyfeiriad The Coach House, The Firs, High Street, Whitchurch, Aylesbury, Buckinghamshire HP22 4SJ
Ffôn 01296 642020
E-bost info@bipp.com
Gwefan www.bipp.com
- **British Journal of Photography**
Publisher: Incisive Media
E-bost support@apptitudemedia.co.uk
Gwefan www.bjp-online.com
- **Careers Wales - Welsh Apprenticeships**
Ffôn 0800 028 4844
Gwefan ams.careerswales.com/

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Cynorthwy-ydd Prosesu Ffotograffig
- Technegydd Delweddu Digidol
- Ffotograffydd Ymarfer Cyffredinol
- Ffotograffydd Meddygol
- Ffotograffydd y Wasg/Ffotonewyddiadurwr
- Ffotograffydd Gwyddonol
- Ffotograffydd Diwydiannol/Masnachol
- Ffotograffydd

